

Pierhead



**Argyhoeddi
Cynrychioli
Ysbrydoli**

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfrannodd y Pierhead at danio hunaniaeth Cymru 'wrth ddŵr a tân'; ei nod heddiw yw argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli cenhedlaeth newydd i'n harwain tuag at Gymru'r dyfodol.

**Inform
Involve
Inspire**

The Pierhead helped Wales forge its identity 'through water and fire' in the late nineteenth century; today its aim is to inform, involve and inspire a new generation to forge a Wales for the future.





WERTH
DDDWR
A
THAN



**Crwydro'r
Pierhead**

**Explore the
Pierhead**



Croeso

Mae'r Pierhead yn fan cyfarfod unigryw i bobl Cymru ac yn darparu ar gyfer ymwelwyr, digwyddiadau a chynadleddau. Mae'n lle i fynegi barn a rhoi llais i faterion sydd o bwys i chi fel unigolion, cymunedau neu sefydliadau.

Wedi'i godi ym 1897, daeth yr adeilad rhestredig Gradd I hwn yn bencadlys Cwmni Rheilffordd Caerdydd ar ôl i swyddfydd Cwmni Doc Bute gael eu difrodi mewn tân ym 1892.


Bu newidiadau mawr yn nocioau Caerdydd dros y ganrif ddiwethaf, ond eto, mae'r Pierhead wedi aros yn nodweddedd ganolog yn yr ardal hynod hon. Yn yr ystafelloedd prysur hyn, byddai cyfrifyddion, dyfrddarlunwyr, syrfewyr a theipyddion yn gweithio ochr yn ochr er mwyn cynnal dociau a oedd gyda'r mwyaf ffyniannus yn y byd. Ac mae sôn mai yn y Pierhead y cafodd y siec gyntaf erioed am filiwn o bunnoedd ei chadw ar ôl iddi gael ei llofnodi yn y Gyfnewidfa Lo gerllaw.

Welcome

The Pierhead is a unique visitor, events and conference venue for the people of Wales; a space to express opinions and give voice to issues that matter to you as individuals, communities or organisations.


Built in 1897, this Grade I listed building was originally the headquarters of the Cardiff Railway Company, replacing the original Bute Dock Company offices which burnt down in 1892.

Cardiff's docklands have witnessed many changes over the last century, yet the Pierhead has remained a central feature in this remarkable area. In these bustling rooms, accountants, hydrographers, surveyors and typists worked shoulder to shoulder to maintain what were once some of the most prosperous docks in the world. The Pierhead is rumoured to be the place where the first million-pound cheque was kept after being signed in the nearby Coal Exchange.



Fel cefndir bwletinau newyddion dirifedi, y Pierhead yw un o dirnodau mwyaf cyfarwydd Cymru. Ar ôl gwneud gwaith adnewyddu sylweddol, mae cyfle bellach i ymwelwyr ddysgu am ei hanes amrywiol, gan weld sut y bu'r adeilad yn dyst i newidiadau anhygoel ym Mae Caerdydd wrth i hen ganolfan ddiwydiannol y wlad droi'n gartref i ddemocratiaeth yng Nghymru.

As a backdrop to innumerable news bulletins, the Pierhead is one of the most recognisable landmarks in Wales. Following extensive refurbishment, it now also offers visitors an opportunity to learn about its varied history, including how it has stood witness to incredible changes in Cardiff Bay, as it moved from being the country's industrial hub to the seat of democracy in Wales.





Stori'r Pierhead

Mae Stori'r Pierhead yn arddangosfa gyhoeddus sy'n ateb cwestiynau ymwelwyr am hanes yr adeilad rhwng 1897 a heddiw. Mae'n cynnwys cyflwyniad gweledol sy'n dangos sut y newidiodd Bae Caerdydd dros y ganrif ddiwethaf, er bod y Pierhead wedi aros yn nodwedd gyson.

Story of the Pierhead

The Story of the Pierhead is a public space providing visitors the answers to their questions about the building's history from 1897 to the present day. Visitors can enjoy a visual display that documents the shifting landscape in Cardiff Bay over the past century, through which the Pierhead has remained a constant feature.





Y Neuadd Fawr

Fel ystafell fwyaf yr adeilad, mae'r Neuadd Fawr wedi'i chynllunio i gynnal gweithgareddau a digwyddiadau amrywiol.

Pan na chaiff ei defnyddio i gynnal digwyddiadau, mae'r neuadd yn dangos ffilm sy'n olrhain hanes Bae Caerdydd drwy lygaid y Pierhead. Ceir hefyd orsafoedd pleidleisio sy'n gofyn i ymwelwyr roi barn am bynciau llosg sy'n effeithio ar Gymru a'i chymunedau. Caiff y canlyniadau o'r gorsafoedd hyn eu trosglwyddo i'r Senedd, gan helpu i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Main Hall

As the biggest space in the building, the Main Hall is designed to accommodate varied activities and events.

When not being used for Assembly-sponsored events, a multi-screen projected film exhibition details the history of Cardiff Bay, through the eyes of the Pierhead. State-of-the-art polling stations ask visitors questions on topical issues that affect the future of Wales and its communities. The results from these polls are passed directly to the Senedd, helping to influence opinion and shape decision making.








Parlwr y Pierhead

Mae gan Parlwr y Pierhead dair ystafell sy'n olrhain hanes Cymru. Mae yno gasgliad o arteffactau sy'n cynrychioli cerrig milltir yn hanes Cymru rhwng 950 a 1997.

The Pierhead Suite

The Pierhead Suite is a three-room tribute to the history of Wales. The suite hosts a collection of artefacts that showcase milestones in Welsh history from 950 to 1997.






Mae'r ystafell Hanes Llafar yn olrhain hanes bywyd ym Mae Caerdydd drwy gyfrwng sain, a'r hanes hynod hwnnw'n cael ei adrodd gan amryw o gyfranwyr, o gyn-weithwyr yn y Pierhead i wladweinyddion nodedig.

Mae Parlwr y Pierhead hefyd yn rhoi ffenestr i'r gorffennol drwy arddangosfa ddiigidol sy'n deyrnged i arwyr Cymru; pobl sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at hunaniaeth ddiwylliannol a gwleidyddol y wlad.

An Oral Histories room offers visitors fascinating audio accounts of life in Cardiff Bay, told by a variety of contributors, from old Pierhead employees to senior statesmen.

The Pierhead Suite also offers visitors a window onto the past through a digital display that pays tribute to Welsh heroes; people who have made significant contributions to Wales's cultural and political identity.

Thomas • Percy Thomas • Rachel Thomas • R S Thomas • Henry Vaughan • Alfred Russel Wallace •
all have no dominion/or • wylfeco Vaughan Thomas • I saw eternity the other night
against the dying of the light • Olive Rhydder • Jimmy Wilde • Edward Williams (Iolo Morgannwg) •
Edithon Williams • Grace Williams • Gwyn Alfred Williams • Katha Williams •
Waldo Williams • Sioned Williams • Clodion Williams-Evill • Richard Wilson • William Williams
Gwyn eu byd tu hwnt William Abraham (Mabon) Half a loaf is better
i glyw/Tangnefeddwyf, plant i Dduw than no loaf at all
O sancteiddia f'enaid, Arglwydd



Oriel y Dyfodol

Gofod cyfoes yw Oriel y Dyfodol wedi'i gynllunio i gyflwyno arddangosfeydd dros dro, cynnal trafodaethau ac adrodd straeon.

Ar ôl dysgu am y gorffennol a'r presennol, bydd yr oriel hon yn eich annog i feddwl am ddyfodol Cymru. Beth yw ystyr bod yn Gymro neu'n Gymraes? Beth yw'ch barn chi am gymunedau Cymru? Gall ymwelwyr deipio negeseuon ar beiriant sylwadau rhyngweithiol sy'n eu trosglwyddo i fwrdd arddangos digidol.

Futures Gallery

The Futures Gallery is a contemporary space designed to host temporary exhibitions, discussions and story telling.

After learning about the past and the present, this gallery will encourage visitors to think about the future of Wales. What does it mean to be Welsh? What do you think of Welsh communities? Visitors can type messages into an interactive feedback station which transmits them to a digital display.

Eich lle chi

Mae'r Pierhead yn lle i gynnal trafodaethau a dadleuon. Yn ogystal ag arddangosfeydd a chyflwyniadau rhyngweithiol, gellir cynnal digwyddiadau a chynadleddau yno.

Os yw'ch sefydliad chi'n bwriadu trefnu digwyddiad sy'n cael ei noddi gan un o Aelodau'r Cynulliad, bydd ein tîm Digwyddiadau yn fwy na pharod i'ch rhoi ar ben ffordd a'ch helpu i ddod o hyd i'r lle mwyaf addas ar ystad y Cynulliad i gynnal y digwyddiad hwnnw.

Your space

The Pierhead is a venue for discussion and debate. As well as featuring displays and interactive exhibitions, it can host events and conferences.

If your organisation is planning an event sponsored by an Assembly Member, our Events team will be happy to help you find the best space on the Assembly estate to suit your requirements.

I wneud ymholiadau,
cysylltwch â'n llinell archebu:
0845 010 5500
gwybodaeth@pierhead.org

For all enquiries please
contact our booking line:
0845 010 5500
info@pierhead.org

Y dyfodol

Mae'r Pierhead yn un o drysorau ystad Cynulliad Cymru – adeilad hanesyddol rhestredig Gradd I o dan ein Big Ben ni yma yng Nghymru.


Ar un adeg, roedd yn ganolbwynt i'r byd masnach Cymreig, ac mae'n adeilad ysblennydd sydd wedi sefyll yn falch am dros gant o flynyddoedd, yn dyst i hanes unigryw ac amrywiol Bae Caerdydd. Fel lle sy'n adlewyrchu ein diwylliant ac yn ganolfan i gynnal trafodaethau a dadleuon byw, bydd y Pierhead yn parhau'n ganolog wrth i ni feithrin Cymru'r dyfodol.

The future

The Pierhead is a jewel on the National Assembly's estate – a historic Grade I listed building under Wales's very own Big Ben.

Once the focal point of commerce in Wales, this majestic building has stood proud through over a hundred years of Cardiff Bay's unique and varied history. As a space to reflect our culture and a key venue for live discussion and debate, the Pierhead will continue to play a central role in shaping Wales.





©Hawffraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010.
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfwrng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawffraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

©National Assembly for Wales Commission Copyright 2010.
The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading or derogatory context. The material must be acknowledged as copyright of the National Assembly for Wales Commission and the title of the document specified.

Dylunio/Design: Departures© Ffotograffiaeth/Photography: Marcus Ginns

Sut i'n cyrraedd ni

Mae'n hawdd dod i'r Pierhead ar y bws, ar y trên neu yn y car. Mae bws y Baycar yn gadael canol y ddinas bob 10 munud ac mae'n agos iawn i gerdded o orsaf drenau Bae Caerdydd. Wrth deithio ar y ffordd, dewch oddi ar yr M4 yng nghyffordd 33 a dilyn yr A4232 i Fae Caerdydd.

Pierhead
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ewch i www.pierhead.org
i gael rhagor o wybodaeth.

How to get to us

The Pierhead is easy to get to by bus, rail or car. The Baycar bus runs every 10 minutes and Cardiff Bay train station is just a few minutes' walk away. By road, leave the M4 at junction 33 and follow the A4232 to Cardiff Bay.

Pierhead
Cardiff Bay
CF99 1NA

Visit www.pierhead.org
for more information.



029 2089 8222
www.pierhead.org

